

Dydd Mercher, 17 Mehefin 2026**Hysbysiad o gyfarfod:****Cyngor Sir****Dydd Iau, 25ain Mehefin, 2026 at 2.00 pm,**
Council Chamber - Council Chamber**AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	1 - 2
4.	Cwestiynau gan y Cyhoedd	
4.1.	Cyflwynwyd gan Owen Lewis i'r Cynghorydd Sirol Ian Chandler, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch A allwch gadarnhau bod yr holl bryderon sy'n ymwneud â gweithrediadau yn Tudor Street wedi'u hystyried yn llawn a bod y cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddiogelu a diwallu anghenion defnyddwyr am y tymor hir.	
5.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mai 2026	3 - 8
6.	Ffordd Osgoi Cas-gwent arfaethedig	9 - 32
7.	Cod Llywodraethu Corfforaethol	33 - 68
8.	CAIS CYLLID BENTHYCIAD WG SALIX AR GYFER GWAITH ÔL-FFITIO YNNI	69 - 104

9.	Asesiad Perfformiad y Panel	105 - 132
10.	Canolfan Hamdden Cil-y-coed - Buddsoddiad yr Ystafell Ffitrwydd ar y Llawr Cyntaf	133 - 176
11.	Adolygiad o Gynrychiolaeth Grwpiau Gwleidyddol	177 - 184
12.	Cynigion i'r Cyngor	
12.1.	Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sirol Catrin Maby Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r Siarter ar gyfer Hawliau Afonydd Hawliau ein Hafonydd Yr hawl i Lifo a Chyflawni Swyddogaethau Naturiol I gynnal ei llif afon naturiol a'i rhythmau tymhorol heb rwystrau neu echdyniadau sy'n effeithio'n niweidiol ar swyddogaeth ecolegol unrhyw ran o system yr afon. Yr Hawl i Fioamrywiaeth I iechyd biolegol da trwy fodolaeth poblogaethau cytbwys, amrywiol a hyfyw o rywogaethau a chynefinoedd brodorol sy'n benodol i'r Gwy a'i llednentydd. Yr Hawl i fod yn Rhydd o Lygredd I fodoli mewn cyflwr o iechyd ecolegol a pheidio â bod yn destun lefelau niweidiol o lygryddion hysbys ac sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio'n andwyol ar fywyd yr afon. Yr Hawl i gael ei Chefnogi gan Ddalgylch Iach I lifo trwy amgylcheddau sy'n cefnogi'r afon fel ecosystem ddŵr gytbwys, cynaliadwy a gwydn. Yr Hawl i Adfywio I adfer i swyddogaeth ecolegol lawn trwy brosesau naturiol ac i hyn gael ei gefnogi gan ymyrraeth, lle bo angen, er mwyn atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a digonedd, a chynyddu'r ddau dros amser. Yr Hawl i Gynrychiolaeth I gael eu cynrychioli a chael yr hawliau cynhenid hyn yn cael eu cydnabod wrth benderfynu ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd yr afon nawr ac yn y dyfodol.	
12.2.	Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sirol Frances Taylor Bod y Cyngor hwn yn nodi'r gwaith cychwynnol a wnaed gan swyddogion i ddarparu darpariaeth caeau chwaraeon awyr agored ffurfiol ychwanegol ar y tir yn Knollbury i wasanaethu cymunedau Magwyr gyda Gwndy. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau ar frys fel y gellir gwneud y cais cynllunio arfaethedig ar gyfer newid defnydd at ddibenion hamdden ar frys. Mae'r Cyngor yn nodi bod balans cyfalaf gweddilliol o £188,000, a ddelir gan y cyngor o gytundeb Adran 106 sy'n ymwneud â datblygu tir yn Vinegar Hill, Gwndy (Cyfeirnod Cynllunio: DM/2019/01937), eisoes wedi ymrwmo i raddau helaeth i'r datblygiad hwn.	
12.3.	Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sirol Frances Taylor Bod y cyngor hwn yn cymryd pob cam o'r fath i sicrhau cydymffurfiaeth	

frys â'r ymgymeriad unochrog sy'n ymwneud â'r prif ddatblygiad arfaethedig o 13.8 hectar o dir yn Rockfield Farm DC 2016/0083 mewn perthynas â chymal 2.1

"Adeiladu'r ffordd ystad i'w chwblhau hyd at ffin y safle gyda Vinegar Hill cyfagos cyn meddiannu unrhyw uned yng nghanam C1 neu C2."

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ehangach o ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â'r amod hwn ac yn ymrwymo i ddysgu o'r mater.

12.4. Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sirol Simon Howarth

Mae'r Cyngor yn nodi'r effaith sylweddol y mae'r cyfyngiadau presennol ar Draphont Gilwern yn ei chael ar drigolion, busnesau, trafnidiaeth gyhoeddus, trafnidiaeth ysgol a'r economi leol ehangach.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi pwysigrwydd y draphont fel cyswllt trafnidiaeth allweddol i Gilwern, Gofilon, Bryn Llanelli a'r cymunedau cyfagos, ac mae hefyd yn cydnabod y pryder cynyddol o fewn y gymuned ynghylch y diffyg sicrwydd ynghylch datrysiad parhaol.

Mae'r Cyngor yn credu y dylid gwneud blaenoriaeth i adfer y draphont i gyflwr sy'n darparu ar gyfer yr holl draffig priodol yn ddiogel gan gynnwys HGVau
Ar gyfer yr awdurdod.

Mae'r Cyngor yn galw ar yr aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd i gyflwyno adroddiad i'r cyngor llawn sy'n nodi'r canlynol:

- Datrysiad hirdymor arfaethedig ar gyfer adfer oddi ar Draphont Gilwern.
- Y gost amcangyfrifedig o ddarparu'r datrysiad hwnnw.
- Yr opsiynau cyllido sydd ar gael i'r cyngor yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf, benthyca hefyd cyfleoedd cyllido allanol.
- Amserlen unigol ar gyfer cyflawni ac unrhyw fanteision economaidd a chymunedol ehangach sy'n deillio o'r gwaith arfaethedig.

Mae'r Cyngor yn gofyn ymhellach, ar ôl derbyn yr adroddiad hwn, y dylid rhoi cyfle i'r cyngor llawn ystyried yr opsiynau a'r trefniadau cyllido cysylltiedig cyn penderfyniad y Cabinet.

12.5. Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sirol Tomos Davies

Cynnig A4042

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn nodi bod yr A4042 yn goridor trafnidiaeth strategol bwysig sy'n cysylltu'r Fenni a gogledd Sir Fynwy â Chwmbwrn, Casnewydd a chyfleusterau cyflogaeth, addysg a gofal iechyd allweddol, gan gynnwys Ysbyty Prifysgol y Faenor.
- Yn nodi ymhellach fod gwrthdrawiadau, cau ffyrdd a dargyfeirio traffig ar yr A4042 yn cael effaith sylweddol nid yn unig ar

	gymunedau ar hyd y llwybr, ond hefyd ar drigolion ar draws y Fenni a gogledd Sir Fynwy sy'n dibynnu ar y ffordd i gael mynediad at ofal iechyd, gan gynnwys gwasanaethau brys ac achosion brys yn y Faenor. • Yn cydnabod yr angen i wella diogelwch ar y ffyrdd a mynediad i gerddwyr ar hyd yr A4042 i drigolion a holl ddefnyddwyr y ffordd. • Yn croesawu agor y groesfan gerddwyr newydd yng Ngoetre yn ddiweddar a'r manteision y bydd yn dod i'r gymuned leol. • Yn cydnabod cryfder teimlad lleol yn Llanelen, a ddangoswyd gan y cyfarfod pentref diweddar a fynychwyd gan fwy na 100 o drigolion yn galw am weithredu ar ddiogelwch ar y ffyrdd, a phryderon parhaus am gyflymder cerbydau, gwrthdrawiadau a difrod i eiddo ar hyd yr A4042. • Yn nodi bod trigolion Llanofer wedi llwyddo i arwain deiseb drawsbleidiol yn y Senedd yn galw am groesfan i gerddwyr, ond maen nhw'n dal i aros am gynnydd. • Yn galw ar Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru, awdurdodau priffyrdd perthnasol a rhanddeiliaid a phartneriaid lleol i ddatblygu a darparu atebion hirdymor credadwy, gan gynnwys mesurau diogelwch ffyrdd, mynediad i gerddwyr a thawelu traffig priodol yn Llanelen, Llanofer ac ar hyd coridor ehangach yr A4042.	
12.6.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Jayne McKenna Mae'r Cyngor hwn: Yn nodi bod llinellau copr y DU i fod i gael eu diffodd erbyn 31 Ionawr 2027. Yn cydnabod nad oes gan lawer o eiddo yng nghefn gwlad Sir Fynwy fynediad at Ffibr i'r Eiddo (sef FTTP) na signal ffôn symudol ac maent mewn perygl o ynysu digidol. Yn galw ar Openreach i ohirio'r diffodd nes y gall pob preswylydd gael mynediad at ddarpariaeth fodern.	
13.	Cwestiynau'r Aelodau	
13.1.	O'r Cynghorydd Sirol Tomos Davies i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd Gofyn i'r Aelod Cabinet, ymhellach i'm cwestiwn o 4^{ydd} Rhagfyr, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad arfaethedig o oryrru drwy bentref Llanelen.	
13.2.	O'r Cynghorydd Sirol Tomos Davies i'r Cynghorydd Sirol Mary Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor Gofyn i'r Arweinydd, ymhellach i'm cynnig o 4^{ydd} Rhagfyr yn ceisio setliad cyllido tecach ar gyfer Sir Fynwy, pa sylwadau y mae hi wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru sydd newydd ei hethol.	
13.3.	O'r Cynghorydd Sirol Tomos Davies i'r Cynghorydd Sirol Angela Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu Gofyn i'r Aelod Cabinet gadarnhau sut mae'r awdurdod yn bwriadu cefnogi a hyrwyddo Eisteddfod yr Urdd Gwent y flwyddyn nesaf.	

13.4.	O'r Cynghorydd Sirol Louise Brown i'r Cynghorydd Sirol Mary Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor Sut mae'r weinyddiaeth yn cyfathrebu â rhanddeiliaid, aelodau etholedig a thrigolion ynglŷn â Chynllun Datblygu Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd?	
13.5.	O'r Cynghorydd Sirol Peter Strong i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd	
	A yw Llywodraeth newydd Cymru wedi cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru flaenorol i ddatblygu cyswllt ffordd rhwng yr M48 a gorsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren?	
13.6.	O'r Cynghorydd Sirol Simon Howarth i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd	
	A allai'r aelod cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod safle o Church Road ac Church Road uchaf, Gilwern.	
13.7.	O'r Cynghorydd Sirol Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sirol Laura Wright, Aelod Cabinet dros Addysg	
	A all yr Aelod Cabinet amlinellu pa gamau sydd wedi'u cymryd i amddiffyn disgyblion a staff ysgolion Cas-gwent; staff a defnyddwyr canolfannau hamdden; a thrigolion lleol o safbwynt diogelu ar ôl gweithgareddau'r gwersyll teithwyr anghyfreithlon yng Nghanolfan Hamdden Cas-gwent ym mis Mawrth eleni, a pha fesurau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.	
13.8.	O'r Cynghorydd Sirol Lisa Dymock i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd	
	Pryd oedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol am y tro cyntaf y byddai angen gohirio gwrandawiadau PCAC oherwydd methiant i gydymffurfio â Rheoliad 23 a pha gamau y mae'r Cyngor bellach yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r broses?	
13.9.	O'r Cynghorydd Sirol Penny Jones i'r Cynghorydd Sirol Ben Callard, Aelod Cabinet dros Adnoddau	
	A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Trosglwyddiad Asedau hir-ddisgwyliedig ar gyfer yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd yn Rhaglan i Gyngor Cymuned Rhaglan?	

13.10.	O'r Cyngorydd Sirol Richard John i'r Cyngorydd Sirol Mary Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor Pa drafodaethau y mae'r Arweinydd wedi'u cael gyda Gweinidogion y Cabinet yn Llywodraeth newydd Cymru?	
14.	Dyddiad y cyfarfod nesaf - 16eg Gorffennaf 2026	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Martin Newell
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddadl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifenwol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrandao ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.